



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 Rhif 266 (Cy.29)**

**2009 No. 266 (W.29)**

**GALLUEDD MEDDYLIOL,  
CYMRU**

**MENTAL CAPACITY,  
WALES**

Rheoliadau Galluedd Meddyliol  
(Amddifadu o Ryddid: Penodi  
Cynrychiolydd Person Perthnasol)  
(Cymru) 2009

The Mental Capacity (Deprivation  
of Liberty: Appointment of  
Relevant Person's Representative)  
(Wales) Regulations 2009

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf") yn darparu y gellir yn gyfreithlon amddifadu pobl o'u rhyddid os nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i drefniadau a gynigir iddynt ar gyfer eu gofal neu driniaeth mewn cartrefi gofal ac ysbytai ar yr amod bod hynny'n cael ei awdurdodi'n unol â'r Ddeddf. Y cyrff goruchwylio sydd i roi'r awdurdodiad. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas ag ysbytai i Fyrddau Iechyd Lleol.

1. The Mental Capacity Act 2005 ("the Act") provides that people who lack capacity to consent to arrangements proposed for their care or treatment in care homes and hospitals may be lawfully deprived of their liberty providing it is authorised in accordance with the Act. Authorisation is to be given by supervisory bodies. These regulations confer supervisory functions in relation to hospitals on Local Health Boards.

2. Os rhoddir awdurdodiad i amddifadu unrhyw berson o'i ryddid, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r corff goruchwylio benodi cynrychiolydd ar gyfer y person hwnnw. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dethol a phenodi cynrychiolwyr.

2. Where authorisation is given to deprive any person of their liberty the Act requires that the supervisory body must appoint a representative for that person. These regulations provide for the selection and appointment of representatives.

3. Mae'r Rheoliadau hyn—

3. These regulations—

- (a) yn rhoi swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas ag ysbytai i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn darparu ar gyfer trefniadau cydweithio (rheoliad 3);
- (b) yn gwneud darpariaethau ynghylch yr amgylchiadau pan fydd person yn gymwys i fod yn gynrychiolydd (rheoliad 6);
- (c) yn darparu i berson perthnasol ddethol person yn gynrychiolydd iddo (rheoliad 7);
- (ch) yn darparu os oes gan berson perthnasol roddai i Atwrneiaeth Arhosol neu os yw'r llys wedi penodi dirprwy, caiff y rhoddai hwnnw neu'r

- (a) confer supervisory functions in relation to hospitals on Local Health Boards and provide for joint working arrangements (regulation 3);
- (b) make provisions about the circumstances in which a person will be eligible to be a representative (regulation 6);
- (c) provide for a relevant person to select a person as his or her representative (regulation 7);
- (d) provide that where a relevant person has a donee of a Lasting Power of Attorney or Court appoint deputy that donee or deputy may select

dirprwy hwnnw ddethol cynrychiolydd ar yr amod bod hynny o fewn cwmpas ei awdurdod (rheoliad 8);

- (d) yn darparu i asesydd lles pennaf i gymeradwyo cynrychiolydd a ddetholir gan y person perthnasol, y rhoddai neu'r dirprwy neu ddethol cynrychiolydd ei hunan (rheoliadau 9 a 10);
- (dd) yn darparu i'r corff goruchwyllo ddethol cynrychiolydd os na ellir dethol un drwy ddulliau eraill (rheoliad 11);
- (e) yn darparu i'r corff goruchwyllo benodi cynrychiolydd a ddetholwyd ac i hysbysiad o'r penodiad gael ei roi i'r personau sydd â buddiant (rheoliadau 12 a 13);
- (f) yn darparu ar gyfer terfynu penodiad y cynrychiolydd (rheoliad 14);
- (ff) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyllo os nad yw'r cynrychiolydd yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol neu os nad yw'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd (rheoliad 15);
- (g) yn darparu i gynrychiolwyr gael eu talu (rheoliad 17).

4. Darpariaethau trosiannol yw rheoliadau 18 a 19 sy'n diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy.77)). Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol hefyd am wneud trefniadau i Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol fod ar gael i weithredu pan fo'r person perthnasol, neu pan fo'n bosibl ei fod, yn ddarostyngedig i awdurdodiad safonol ac nad oes gan y person hwnnw unrhyw berson arall y gellir ymgynghori ag ef ynglyn â'r hyn sydd er ei les pennaf (rheoliadau 18 a 19).

5. Ni chafodd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith arwyddocaol ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

a representative providing it is within the scope of his or her authority (regulation 8);

- (e) provide for the best interests assessor to approve a representative who is selected by the relevant person, donee or deputy or select a representative him or herself (regulations 9 and 10);
- (f) provide for the supervisory body to select a representative if one cannot be selected by other means (regulation 11);
- (g) provide for the supervisory body to appoint a representative who has been selected and for notice of the appointment to be given to interested persons (regulation 12 and 13);
- (h) provide for the termination of appointment of the representative (regulation 14);
- (i) require the managing authority to notify the supervisory body if the representative is not acting in the best interests of the relevant person or is not keeping in regular contact (regulation 15);
- (j) provide for representatives to be paid (regulation 17).

4. Regulations 18 and 19 are transitional provisions which amend the Mental Capacity Act 2005 (Independent Mental Capacity Advocates) (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/852 (W.77)). These regulations provide that Local Health Boards will also be responsible for making arrangements for Independent Mental Capacity Advocates to be available to act where the relevant person is, or may be subject to a standard authorisation and that person has no other person who may be consulted about what is in his or her best interests (regulation 18 and 19).

5. A full impact assessment has not been produced for this instrument as no significant impact on the private or voluntary sector is foreseen.

**2009 Rhif 266 (Cy.29)**

**2009 No. 266 (W.29)**

**GALLUEDD MEDDYLIOL,  
CYMRU**

**MENTAL CAPACITY,  
WALES**

**Rheoliadau Galluedd Meddyliol  
(Amddifadu o Ryddid: Penodi  
Cynrychiolydd Person Perthnasol)  
(Cymru) 2009**

**The Mental Capacity (Deprivation  
of Liberty: Appointment of  
Relevant Person's Representative)  
(Wales) Regulations 2009**

*Gwnaed* 11 Chwefror 2009

*Made* 11 February 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 13 Chwefror 2009

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 13 February 2009

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2009

*Coming into force* 1 April 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 35(2) a (3), 65(1) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a pharagraffau 138(1), 142 i 144, 145, 147, 148, 165, 166 a 182(6) a (7) o Atodlen A1 iddi (1) a chan adrannau 12 a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(2).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 35(2) and (3), 65(1) of, and paragraphs 138(1), 142 to 144, 145, 147, 148, 165, 166 and 182(6) and (7) of Schedule A1 to, the Mental Capacity Act 2005(1) and by sections 12 and 204 of the National Health Service (Wales) Act 2006(2).

**RHAN 1**

**PART 1**

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2009.

1.—(1) These Regulations are called the Mental Capacity (Deprivation of Liberty: Appointment of Relevant Person's Representative) (Wales) Regulations 2009 and come into force on 1 April 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Dehongli**

**Interpretation**

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

2.—(1) In these Regulations—

ystyr "asesydd lles pennaf" ("*best interests assessor*") yw person a ddetholwyd i wneud

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Mental Capacity Act 2005;

---

(1) 2005 p.9. Mewnosodwyd Atodlen A1 gan adran 50(5) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 p.12.

---

(1) 2005 c.9. Schedule A1 was inserted by section 50(5) of the Mental Health Act 2007 c.12.

(2) 2006 (p.42).

(2) 2006 (c.42).

asesiad lles pennaf o dan baragraff 38 o Atodlen A1 i'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

ystyr "rhoddai" ("*donee*") yw person y rhoddwyd iddo atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus gofrestredig gan y person perthnasol.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn mae "corff goruchwyllo" ("*supervisory body*") yn cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol sy'n arfer swyddogaethau goruchwyllo yn unol â rheoliad 3.

"best interests assessor" ("*asesydd lles pennaf*") means a person selected to carry out a best interests assessment under paragraph 38 of Schedule A1 to the Act;

"donee" ("*rhoddai*") is a person who has a lasting power of attorney or a registered enduring power of attorney conferred on them by the relevant person.

(2) For the purpose of these Regulations "supervisory body" ("*corff goruchwyllo*") includes a Local Health Board exercising supervisory functions in accordance with regulation 3.

## RHAN 2

### Swyddogaethau goruchwyllo

#### Swyddogaethau goruchwyllo sy'n arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol

3.—(1) Bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn arfer swyddogaethau goruchwyllo—

- (a) mewn perthynas ag unrhyw berson sydd â lle ganddo mewn ysbyty neu sy'n debygol o gael lle mewn ysbyty (p'un a ydynt yn ysbytai'r GIG neu'n ysbytai annibynnol) yn ei ardal er mwyn derbyn gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol(1); a
- (b) os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn comisiynu gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol i berson mewn ysbyty (p'un ai ysbyty'r GIG neu ysbyty annibynnol) yn Lloegr mewn perthynas â'r ysbyty hwnnw.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru yn comisiynu gofal perthnasol neu driniaeth berthnasol i unrhyw berson sydd â lle ganddo mewn ysbyty neu sy'n debygol o gael lle mewn ysbyty (p'un ai ysbyty'r GIG neu ysbyty annibynnol) yn Lloegr y corff goruchwyllo fydd y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r person fel arfer yn byw ynddi.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru, mae modd i swyddogaethau goruchwyllo sy'n arferadwy gan Fwrdd Iechyd Lleol, drwy drefniant â'r Bwrdd hwnnw, ac yn ddarostyngedig i'r fath gyfyngiadau ac amodau ag y tybia'r Bwrdd hwnnw eu bod yn briodol, gael eu harfer—

- (a) ar ran y Bwrdd hwnnw gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r Bwrdd;
- (b) ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol arall;

## PART 2

### Supervisory functions

#### Supervisory functions exercisable by Local Health Boards

3.—(1) Each Local Health Board will exercise the supervisory functions—

- (a) in relation to any person who is, or is likely to be, accommodated in a hospital (whether NHS or independent hospitals) in its area for the purposes of receiving relevant care or treatment(1); and
- (b) where the Local Health Board commissions relevant care or treatment for a person in a hospital (whether a NHS or independent hospital) in England in relation to that hospital.

(2) Where Welsh Ministers commission relevant care or treatment for a person who is, or is likely to be, accommodated in a hospital (whether a NHS or independent hospital) in England the supervisory body will be the Local Health Board for the area in which that person is usually resident.

(3) Subject to any directions given by Welsh Ministers, the supervisory functions exercisable by a Local Health Board may, by arrangement with that Board, and subject to such restrictions and conditions as the Board may think fit, be exercised—

- (a) on behalf of that Board by a committee, sub-committee or officer of the Board;
- (b) jointly with another Local Health Board;

(1) Diffinnir "relevant care or treatment" ym mharagraff 7 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(1) "relevant care or treatment" is defined in paragraph 7 of Schedule A1 to the Act.

(4) Mae i "swyddogaethau goruchwyllo" yr un ystyr ag sydd i "*supervisory functions*" ym mharagraff 165(3) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(4) "Supervisory functions" ("*swyddogaethau goruchwyllo*") has the same meaning as in Schedule A1, paragraph 165(3) of the Act.

### RHAN 3

#### Penodi - cyffredinol

##### Y weithdrefn benodi

4.—(1) Mae dethol person i'w benodi yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 4.

(2) Mae penodi person yn gynrychiolydd i ddigwydd yn unol â Rhan 5.

##### Cychwyn y weithdrefn benodi

5. Rhaid i'r weithdrefn ar gyfer penodi cynrychiolydd ddechrau—

- (a) cyn gynted ag y bydd asesydd lles pennaf wedi ei ddedhol gan y corff goruchwyllo(1) at ddibenion cais am awdurdodiad safonol(2); neu
- (b) cyn gynted ag y bo penodiad cynrychiolydd person perthnasol yn terfynu, neu i'w derfynu yn unol â rheoliad 14, a bod y person perthnasol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i awdurdodiad safonol.

##### Cymhwysra person i fod yn gynrychiolydd

6.—(1) Mae person yn gymwys i'w benodi yn gynrychiolydd—

- (a) os yw'n 18 oed neu drosodd;
- (b) os yw'n abl i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol(3);
- (c) onid yw wedi'i rwystro gan afiechyd rhag cyflawni swyddogaeth cynrychiolydd;
- (ch) os yw'n fodlon bod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol;
- (d) os nad oes ganddo fuddiant ariannol yn y cartref gofal(4) neu yn yr ysbyty annibynnol(5) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;

(1) Penderfynir p'un yw'r corff goruchwyllo yn unol â pharagraffau 128, 180, 181 a 182 o Atodlen A1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf").

(2) Caiff "*standard authorisation*" ei ddiffinio ym mharagraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(3) Caiff "*relevant person*" ei ddiffinio ym mharagraff 7 o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(4) Caiff "*care home*" ei ddiffinio ym mharagraff 178 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(5) Diffinnir "*independent hospital*" ym mharagraff 175(3) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

### PART 3

#### Appointment - general

##### Appointment procedure

4.—(1) A person is to be selected for appointment as a representative in accordance with Part 4.

(2) A person is to be appointed as a representative in accordance with Part 5.

##### Commencement of appointment procedure

5. The procedure for appointing a representative must begin as soon as—

- (a) a best interests assessor is selected by the supervisory body(1) for the purposes of a request for a standard authorisation(2); or
- (b) a relevant person's representative's appointment terminates, or is to be terminated in accordance with regulation 14, and the relevant person remains subject to a standard authorisation.

##### Eligibility of a person to be a representative

6.—(1) A person is eligible to be appointed as a representative if they are—

- (a) 18 years of age or over;
- (b) able to keep in contact with the relevant person(3);
- (c) not prevented by ill-health from carrying out the role of the representative;
- (d) willing to be the relevant person's representative;
- (e) not financially interested in the care home(4) or independent hospital(5) where the relevant person is, or is to be, detained;

(1) The identity of the supervisory body is determined in accordance with paragraphs 128, 180, 181 and 182 of Schedule A1 to the Mental Capacity Act 2005 ("the Act").

(2) "standard authorisation" is defined in paragraph 8 of Schedule A1 to the Act.

(3) "relevant person" is defined in paragraph 7 of Schedule A1 to the Act.

(4) "care home" is defined in paragraph 178 of Schedule A1 to the Act.

(5) "independent hospital" is defined in paragraph 175(3) of Schedule A1 of the Act.

- (dd) onid yw'n berthynas i berson sydd â buddiant ariannol yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw;
- (e) onid yw'n darparu gwasanaethau i'r cartref gofal lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, neu onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yno;
- (f) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysbyty(1) lle mae'r person perthnasol yn cael ei gadw, neu lle mae i'w gadw, mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw; ac
- (ff) onid yw'n cael ei gyflogi i weithio ar gorff goruchwylio'r person perthnasol mewn swyddogaeth sy'n gysylltiedig ag achos y person perthnasol, neu a allai fod yn gysylltiedig â'r achos hwnnw.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "perthynas" ("*relative*") yw:

- (a) tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, llysfab, llyserch, nain (mam-gu), taid (tad-cu), wŷr neu wyres y person hwnnw, neu o briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw; neu
- (b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai, neu gefnder cyfan (p'un ai o waed cyfan neu hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) y person hwnnw neu briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae "priod" ("*spouse*") neu "partner sifil" ("*civil partner*") yn cynnwys person nad yw'n briod â pherson nac mewn partneriaeth sifil â pherson ond sy'n byw gyda'r person hwnnw fel petai mewn perthynas o'r fath, a
- (b) mae gan berson fuddiant ariannol mewn cartref gofal neu mewn ysbyty annibynnol os yw'r person hwnnw'n bartner, yn gyfarwyddwr, yn ddeiliad swydd arall neu'n brif gyfranddaliwr y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol sydd wedi gwneud cais am awdurdodiad safonol.
- (c) ystyr "prif gyfranddaliwr" ("*major shareholder*") yw—
  - (i) unrhyw berson sy'n dal degfed ran neu fwy o'r cyfranddaliadau sydd wedi eu dyroddi yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, os yw'r cartref gofal neu'r ysbyty yn gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, a
  - (ii) ym mhob achos arall, unrhyw un o berchnogion y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol.

- (f) not a relative of a person who is financially interested in the care home or independent hospital where the relevant person is, or is to be, detained;
- (g) not providing services to, or not employed to work in, the care home where the relevant person is, or is to be, detained;
- (h) not employed to work in the hospital(1) where the relevant person is, or is to be, detained in a role that is, or could be, related to the relevant person's case; and
- (i) not employed to work in the relevant person's supervisory body in a role that is, or could be, related to the relevant person's case.

(2) For the purposes of this regulation a "relative" ("*perthynas agos*") means:

- (a) the father, mother, stepfather, stepmother, son, daughter, stepson, stepdaughter, grandmother, grandfather, grandson or granddaughter of that person or of that person's spouse, former spouse, civil partner or former civil partner, or
- (b) the brother, sister, uncle, aunt, niece, nephew or first cousin (whether of the full blood or of the half blood or by marriage or civil partnership) of that person or of that person's spouse, former spouse, civil partner or former civil partner.

(3) For the purposes of this regulation—

- (a) "spouse" ("*priod*") or "civil partner" ("*partner sifil*") includes a person who is not married to or in a civil partnership with a person but is living with that person as if they were, and
- (b) a person has a financial interest in a care home or independent hospital where that person is a partner, director, other office-holder or major shareholder of the care home or independent hospital that has made the application for a standard authorisation.
- (c) "major shareholder" ("*prif gyfranddaliwr*") means—
  - (i) any person who holds one tenth or more of the issued shares in the care home or independent hospital, where the care home or independent hospital is a company limited by shares, and
  - (ii) in all other cases, any of the owners of the care home or independent hospital.

(1) Caiff "ysbyty" ei ddiffinio ym mharagraff 175(1) o Atodlen A1 i'r Ddeddf.

(1) "hospital" is defined in paragraph 175(1) of Schedule A1 to the Act.

**Dethol gan y person perthnasol**

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gan y person perthnasol alluedd o ran y cwestiwn pwy ddylai ei gynrychiolydd fod.

(2) Caiff y person perthnasol ddethol person ar gyfer ei benodi i fod yn gynrychiolydd iddo.

(3) Os yw'r person perthnasol yn cael dethol person yn unol â pharagraff (2) ond nad yw'n gwneud hynny, mae rheoliad 10 yn gymwys.

**Dethol gan roddai neu ddirprwy**

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad oes gan y person perthnasol alluedd o ran y cwestiwn pwy ddylai ei gynrychiolydd fod.

(2) Pan fo'r canlynol yn wir—

- (a) bod gan y person perthnasol roddai neu ddirprwy(1), a
- (b) ei bod o fewn awdurdod y rhoddi neu'r dirprwy i wneud hynny,

caiff y rhoddi neu'r dirprwy ddethol person i'w benodi yn gynrychiolydd.

(3) Os yw rhoddi neu ddirprwy yn cael dethol person yn unol â pharagraff (2) ond nad yw'n gwneud hynny, mae rheoliad 10 yn gymwys.

**Cymeradwyo gan yr asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwyllo**

9.—(1) Rhaid i berson a ddetholir yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2) gael ei gymeradwyo gan yr asesydd lles pennaf neu gan y corff goruchwyllo.

(2) Os nad yw'r asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwyllo yn cymeradwyo person a ddetholir—

- (a) caiff gymeradwyo person arall a ddetholir yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2); neu
- (b) caiff yr asesydd lles pennaf ddethol person yn unol â rheoliad 10.

**Dethol gan yr asesydd lles pennaf**

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) pan nad oes person wedi ei ddethol i'w benodi yn gynrychiolydd yn unol â rheoliadau 7(2) neu 8(2), neu
- (b) pan fo'r asesydd lles pennaf neu'r corff goruchwyllo heb gymeradwyo person yn unol â rheoliad 9.

**Selection by the relevant person**

7.—(1) This regulation applies where the relevant person has capacity in relation to the question of which person should be his or her representative.

(2) The relevant person may select a person for appointment as his or her representative.

(3) Where the relevant person may select a person in accordance with paragraph (2) but does not do so, regulation 10 applies.

**Selection by a donee or deputy**

8.—(1) This regulation applies where the relevant person does not have capacity in relation to the question of which person should be his or her representative.

(2) Where—

- (a) the relevant person has a donee or deputy(1), and
- (b) it is within the authority of the donee or deputy to do so,

the donee or deputy may select a person to be appointed as a representative.

(3) Where a donee or deputy may select a person in accordance with paragraph (2) but does not do so, regulation 10 applies.

**Approval by the best interests assessor or supervisory body**

9.—(1) A person selected in accordance with regulations 7(2) or 8(2) must be approved by the best interests assessor or the supervisory body.

(2) Where the best interests assessor or supervisory body does not approve a person selected—

- (a) they may approve another person selected in accordance with regulations 7(2) or 8(2); or
- (b) the best interests assessor may select a person in accordance with regulation 10.

**Selection by the best interests assessor**

10.—(1) This regulation applies where—

- (a) a person has not been selected for appointment as representative in accordance with regulations 7(2) or 8(2), or
- (b) the best interests assessor or supervisory body has not approved a person in accordance with regulation 9.

(1) Caiff "deputy" ei ddiffinio yn adran 64(1) o'r Ddeddf.

(1) "deputy" is defined in section 64(1) of the Act.

(2) Caiff yr asesydd lles pennaf ddethol person i fod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

(3) Os nad yw'r asesydd lles pennaf yn gallu dethol person i'w benodi'n gynrychiolydd, mae rheoliad 11 yn gymwys.

### **Dethol gan y corff goruchwyllo**

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan nad oes person wedi'i ddethol yn unol â rheoliadau 7(2), 8(2) neu 10(2).

(2) Rhaid i'r corff goruchwyllo ddethol person i'w benodi yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

(3) Os bydd person a ddetholir yn unol â pharagraff (2) yn gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol

- (a) rhaid i'r person hwnnw fod â'r hyfforddiant a'r profiad priodol, a
- (b) rhaid bod y corff goruchwyllo wedi'i fodloni bod y canlynol ar gael mewn perthynas â'r person hwnnw—
  - (i) tystysgrif cofnod troseddol fanwl a ddyroddir yn unol ag adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(1); neu
  - (ii) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol ati yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir yn unol ag adran 113A o'r Ddeddf honno.

(4) At ddibenion paragraff (3), person sy'n gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol yw person a gafodd ei ddethol gan yr asesydd lles pennaf neu gan y corff goruchwyllo a hwnnw'n berson nad yw'n aelod o'r teulu, yn gyfaill nac yn ofalwr i'r person perthnasol.

(2) The best interests assessor may select a person to act as a representative for the relevant person.

(3) If the best interests assessor is unable to select a person for appointment as a representative, regulation 11 applies.

### **Selection by the supervisory body**

**11.**—(1) This regulation applies where a person has not been selected in accordance with regulations 7(2), 8(2) or 10(2).

(2) The supervisory body must select a person to be appointed as a representative for the relevant person.

(3) Where a person who is selected in accordance with paragraph (2) will be acting in a professional capacity

- (a) that person must have appropriate training and experience, and
- (b) the supervisory body must be satisfied that there is in respect of that person—
  - (i) an enhanced criminal record certificate issued pursuant to section 113B of the Police Act 1997(1); or
  - (ii) if the purpose for which the certificate is required is not one prescribed under subsection (2) of that section, a criminal record certificate issued pursuant to section 113A of that Act.

(4) For the purposes of paragraph (3) a person acting in a professional capacity is a person selected by the best interests assessor or supervisory body who is not a family member, friend or carer of the relevant person.

## **RHAN 5**

### **Penodi cynrychiolwyr**

#### **Penodi cynrychiolydd**

**12.** Bydd corff goruchwyllo yn penodi mewn ysgrifen unrhyw berson a ddetholir yn unol â Rhan 4 yn gynrychiolydd i'r person perthnasol.

#### **Gofynion ffurfiol penodi cynrychiolydd**

**13.** Rhaid hysbysu'r personau canlynol o benodiad cynrychiolydd—

## **PART 5**

### **Appointment of representatives**

#### **Appointment of representative**

**12.** A supervisory body will appoint in writing as a representative for the relevant person any person who is selected in accordance with Part 4.

#### **Formalities of appointing a representative**

**13.** Notice of the appointment of a representative must be given to the following persons—

---

(1) 1997 p.50. Mae adrannau 113A i 113D wedi'u mewnosod gan adran 163 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.14).

---

(1) 1997 c.50. Sections 113A to 113D are inserted by section 163 of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.14).



- (a) y person perthnasol;
- (b) yr awdurdod rheoli perthnasol;
- (c) unrhyw roddai neu ddirprwy i'r person perthnasol;
- (ch) unrhyw eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddyliol(1) a benodwyd yn unol â'r Ddeddf; a
- (d) unrhyw berson y bydd yr asesydd lles pennaf wedi ymgynghori ag ef.

- (a) the relevant person;
- (b) the relevant managing authority;
- (c) any donee or deputy of the relevant person;
- (d) any independent mental capacity advocate(1) appointed in accordance with the Act; and
- (e) any person consulted by the best interest assessor.

## RHAN 6

## PART 6

### Terfynu penodiad cynrychiolydd

14. Bydd person yn peidio â bod yn gynrychiolydd—

- (a) os bydd farw;
- (b) os bydd yn hysbysu'r corff goruchwylio nad yw mwyach yn fodlon parhau â'r swyddogaeth;
- (c) os daw cyfnod ei benodiad i ben;
- (ch) os yw cynrychiolydd wedi'i benodi ar ôl cael ei ddethol yn unol â rheoliad 7(2) a bod y person perthnasol yn hysbysu'r corff goruchwylio ei fod yn gwrthwynebu i'r person hwnnw barhau i fod yn gynrychiolydd iddo;
- (d) os yw cynrychiolydd wedi'i benodi ar ôl cael ei ddethol yn unol â rheoliad 8(2) a bod y rhoddai neu'r dirprwy yn gwrthwynebu i'r person hwnnw barhau i fod yn gynrychiolydd i'r person perthnasol;
- (dd) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r cynrychiolydd yn cadw cyswllt digonol â'r person perthnasol i'w gefnogi ac i'w gynrychioli;
- (e) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r person yn gymwys mwyach at ddibenion 6(1) i fod yn gynrychiolydd; neu
- (f) os bydd y corff goruchwylio yn terfynu'r penodiad am ei fod wedi'i fodloni nad yw'r person yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol.

### Monitro cynrychiolwyr

15. Rhaid i'r awdurdod rheoli roi gwybod i'r corff goruchwylio os daw yn ymwybodol nad yw'r cynrychiolydd yn gweithredu er lles pennaf y person perthnasol neu os nad yw wedi cadw cyswllt rheolaidd ag ef.

(1) Caiff "*independent mental capacity advocate*" ei ddiffinio yn adran 64(1) o'r Ddeddf.

### Termination of representative's appointment

14. A person ceases to be a representative if—

- (a) they die;
- (b) they inform the supervisory body that they no longer are willing to continue in the role;
- (c) the period of their appointment ends;
- (d) a representative has been appointed after having been selected in accordance with regulation 7(2) and the relevant person informs the supervisory body that he or she objects to that person continuing to be his or her representative;
- (e) a representative has been appointed after having been selected in accordance with regulation 8(2) and the donee or deputy objects to the person continuing to be the relevant person's representative;
- (f) the supervisory body terminates the appointment because it is satisfied that the representative is not maintaining sufficient contact with the relevant person in order to support and represent him or her;
- (g) the supervisory body terminates the appointment because it is satisfied that the person is no longer eligible for the purposes of regulation 6(1) to be a representative; or
- (h) the supervisory body terminates the appointment because it is satisfied that the person is not acting in the best interests of the relevant person.

### Monitoring of representatives

15. The managing authority must advise the supervisory body where it becomes aware the representative is not acting in the best interest of, or has not maintained regular contact with, the relevant person.

(1) "*independent mental capacity advocate*" is defined in section 64(1) of the Act.

## **Gofynion ffurfiol terfynu penodiad cynrychiolydd**

**16.—**(1) Os yw penodiad cynrychiolydd i'w derfynu yn unol â pharagraffau (b) i (f) o reoliad 14, rhaid i'r corff goruchwyllo hysbysu'r person hwnnw fod ei benodiad i'w derfynu a rhaid iddo roi rhesymau pam y mae'r penodiad i'w derfynu.

(2) Os yw penodiad cynrychiolydd i'w derfynu'n unol â rheoliad 14, rhaid i'r corff goruchwyllo hysbysu—

- (a) y person perthnasol;
- (b) yr awdurdod rheoli;
- (c) unrhyw roddai neu ddirprwy i'r person perthnasol;
- (ch) unrhyw eiriolwr annibynnol o ran galluedd meddyliol a benodir yn unol â'r Ddeddf; a
- (d) unrhyw berson yr ymgynghorir ag ef gan yr asesydd lles penaf.

### **RHAN 7**

#### **Cynrychiolwyr - amrywiol**

#### **Talu i gynrychiolwyr**

**17.** Caiff corff goruchwyllo wneud taliadau i unrhyw berson, neu mewn perthynas ag unrhyw berson, a benodwyd yn unol â rheoliad 12 ac sy'n arfer swyddogaethau fel cynrychiolydd y person perthnasol.

### **RHAN 8**

#### **Diwygio Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007**

**18.—**(1) Mae Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007(1) wedi'u diwygio'n unol â'r paragraff canlynol.

(2) Yn lle'r geiriau "adrannau 37, 38 a 39 o'r Ddeddf" yn rheoliad 2(2) (dehongli), rhodder y geiriau canlynol—

"adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D o'r Ddeddf".

## **Formalities of termination of representative's appointment**

**16.—**(1) Where the appointment of a representative is to be terminated in accordance with paragraphs (b) to (h) of regulation 14 the supervisory body must notify that person that the appointment is to be terminated and must give reasons why the appointment is to be terminated.

(2) Where the appointment of a representative is to be terminated in accordance with regulation 14 the supervisory body must notify—

- (a) the relevant person;
- (b) the managing authority;
- (c) any donee or deputy of the relevant person;
- (d) any independent mental capacity advocate appointed in accordance with the Act; and
- (e) any person consulted by the best interest assessor.

### **PART 7**

#### **Representatives - miscellaneous**

#### **Paid representatives**

**17.** A supervisory body may make payments to, or in relation to, any person appointed in accordance with regulation 12 and exercising functions as the relevant person's representative.

### **PART 8**

#### **Amendment to the Mental Capacity Act 2005 (Independent Mental Capacity Advocates) (Wales) Regulations 2007**

**18.—**(1) The Mental Capacity Act 2005 (Independent Mental Capacity Advocates) (Wales) Regulations 2007(1) are amended in accordance with the following paragraph.

(2) For the words "sections 37, 38 and 39 of the Act" in regulation 2(2) (interpretation) substitute the following words—

"sections 37, 38, 39, 39A, 39C and 39D of the Act".

---

(1) O..S. 2007/852 (Cy.77).

---

(1) S.I. 2007/852 (W.77).

19. Yn lle'r geiriau "adrannau 37, 38 neu 39 o'r Ddeddf" yn rheoliad 5(1) (penodi eiriolwyr annibynnol o ran galluedd meddyliol) rhodder y geiriau canlynol—

"adrannau 37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D o'r Ddeddf".

19. For the words "sections 37, 38 or 39 of the Act" in regulation 5(1) (appointment of independent mental capacity advocates) substitute the following words—

"sections 37, 38, 39, 39A, 39C or 39D of the Act".

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers

11 Chwefror 2009

11 February 2009

---

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2009 Rhif 266 (Cy.29)**

**GALLUEDD MEDDYLIOL,  
CYMRU**

Rheoliadau Galluedd Meddyliol  
(Amddifadu o Ryddid: Penodi  
Cynrychiolydd Person Perthnasol)  
(Cymru) 2009

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 No. 266 (W.29)**

**MENTAL CAPACITY,  
WALES**

The Mental Capacity (Deprivation  
of Liberty: Appointment of  
Relevant Person's Representative)  
(Wales) Regulations 2009

**£5.00**

W428/03/09

ON